Taflen Ffeithiau - Digartrefedd

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn ymwneud â chwynion ynghylch Digartrefedd. Dylid ei darllen ochr yn ochr â'r Weithdrefn Gwynion; ac os ydych wedi gwneud cais am dŷ i ni neu i un o'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gweithio yn Sir Gaerfyrddin (Bro Myrddin, Coastal, Tai Cantref, Tai Cymdogaeth neu Dai Teulu), dylech hefyd ddarllen ein Taflen Ffeithiau ar Geisiadau am Dai.

Mae'r Cyngor yn gyfreithiol gyfrifol am ddarparu cymorth i bobl sy'n ddigartref neu gallent ddod yn ddigartref.

Dim ond pobl neilltuol yn unig (Pobl ag Anghenion Blaenoriaethol) sydd â hawl i lety brys ac i gael cymorth gyda'u meddiannau, er enghraifft pobl â phlant dibynnol a phobl anabl.

Os canfyddir eich bod wedi achosi eich digartrefedd eich hun ("yn fwriadol ddigartref") bydd hynny'n lleihau cyfrifoldeb y Cyngor.

Gall y weithdrefn gwynion ystyried:

- A ydym wedi eich atal chi rhag gwneud cais digartrefedd neu wedi methu â chydnabod y gallech fod yn ddigartref (e.e. mae eich cais am dŷ yn nodi bod eich llety presennol yn orlawn; methodd yr Awdurdod â chynnig llety brys i chi os ydych yn rhan o grŵp sydd â hawl i hynny e.e. rydych yn feichiog).
- A ydym wedi rhoi sylw priodol i'ch sefyllfa ddigartref e.e. os ydych wedi cael eich troi allan a ydym wedi cysylltu â'ch landlord blaenorol i ganfod pam.
- A ydym wedi cymryd gormod o amser i wneud penderfyniad ynghylch eich achos e.e. dylem wneud penderfyniad o fewn 33 diwrnod gwaith.
- A ydym wedi methu â rhoi penderfyniad ysgrifenedig i chi yn dweud wrthych: (i) a fyddem yn eich helpu, (ii) os na fyddwn, y rheswm am hynny, (iii) am eich hawl i wneud apêl.
- A ydym wedi gofalu am eich celfi a'ch meddiannau, h.y. wedi trefnu man i'w storio.
- A ydym wedi methu â delio (neu wedi oedi'n afresymol cyn delio) â'ch achos yn briodol

Ni all y weithdrefn gwynion:

- Ein gorfodi i ddarparu llety i chi.
- Gwyrdroi penderfyniad sydd wedi cael ei wneud yn briodol ynghylch eich digartrefedd

Materion i'w cadw mewn cof:

- Yn gyffredinol ni fyddwn yn gyfrifol ond am y bobl hynny sydd yn arferol yn gweithio neu'n byw yn y sir (bod â chysylltiad lleol). Mae rhai eithriadau e.e. os ydych yn ffoi rhag trais.
- Mae gan bobl heb Anghenion Blaenoriaethol yr hawl i gael cyngor a chymorth gennym ynghylch eu sefyllfa o ran cartref.

Efallai y dymunwch ystyried cysylltu â'r cyrff canlynol i gael cyngor:

Shelter Cymru sy'n darparu cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ynghylch tai. Gallwch gysylltu â hwy drwy ffonio **0845 075 5005** neu drwy gyrchu'r wefan www.sheltercymru.org.uk.

Cyngor ar Bopeth sy'n darparu cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ynghylch amrywiol broblemau (yn cynnwys digartrefedd). Gallwch gysylltu â hwy drwy'r wefan www.citizensadvice.org.uk (a dewis safwe 'Cymru' ar y dudalen ddewisiadau) a nodi eich côd post i gael manylion am eich swyddfa agosaf.

Cymorth i Ferched Cymru sy'n darparu cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ynghylch amrywiol broblemau (yn cynnwys digartrefedd) ar gyfer y rheiny sy'n ffoi rhag trais yn y cartref. Gallwch gysylltu â hwy drwy ffonio **0808 8010 800** neu drwy'r wefan www.welshwomensaid.org.uk